ATODLEN 3

Hysbysiadau

**Hysbysiadau o dan reoliad 12 (barnau cwmpasu gan yr awdurdod cynllunio mwynau perthnasol)**

**4.** Y materion y cyfeirir atynt yn rheoliad 12(2) yw—

(a) erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid darparu'r wybodaeth gwmpasu (sef y dyddiad pan ddaw'r cyfnod perthnasol at ddibenion rheoliad 12(4) i ben);

(b) effaith rheoliad 12(5) (atal);

(c) effaith rheoliad 50 (parhad ataliad);

(ch) effaith rheoliad 51 (gwahardd);

(d) effaith rheoliad 12(6) (ymgynghori cyn mabwysiadu barn gwmpasu);

(dd) yr hawl a roddir gan reoliad 12(8) (hawl i ofyn am gyfarwyddyd cwmpasu);

(e) effaith rheoliad 12(9) (nid yw mabwysiadu barn gwmpasu yn atal yr hawl i fynnu cael gwybodaeth bellach neu dystiolaeth);

(f) y ddyletswydd a osodir ar y ceisydd neu, yn ôl y digwydd, y gweithredwr, gan reoliad 46 (cyhoeddusrwydd);

(ff) yr hawl i herio'r hysbysiad a'r cyfnod o amser ar gyfer gwneud hynny.